**I fod yn brifysgol ddinesig fodern flaenllaw, sy'n ymgysylltu'n rhanbarthol ac yn fyd-eang, gan ddarparu sgiliau ac ymchwil effeithiol sy'n llywio twf economaidd ac arloesedd ar gyfer lles cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.**

## Ein gwerthoedd craidd: Rhagoriaeth, Cynhwysiant, Cydweithrediad, Trawsnewidiad, Cynaliadwyedd

### Ein Profiad a Chyfleoedd Myfyrwyr

### Ein Pobl, Lleoedd a Phartneriaethau

### Ein Hymchwil a’n Menter

## Ein hamcanion am 2030: I gael ein cydnabod am:

**Profiad rhagorol ac ysbrydoledig i bob myfyriwr, profiad sydd yn galluogi pob myfyriwr i ddod yn raddedigion cyflogadwy hyderus sy'n cael effaith gadarnhaol ar gymdeithas.**

**Rydym yn Brifysgol Cymru gadarn a blaengar sydd wedi’l gwreiddio yn lleol ac sy’n ymgysylltu’n fyd-eang. Prifysgol sy’n gwrando, yn cymryd sylw ac yn adlewyrchu'r hyn sydd bwysicaf i’n pobl, lleoedd a phartneriaid.**

**Rhagoriaeth o ran ansawdd, perthnasedd ac effeithiau ein hymchwil a'n menter ryngddisgyblaethol trwy ddarparu arloesedd a thrawsnewid llwyddiannus.**

## Bydd ein hamcanion 2030: yn cael eu cyflawni drwy:

- Profiad addysgu a dysgu rhagorol sy'n dosturiol, cynhwysol ac yn cefnogi lles, hyder a chyflawniad myfyrwyr.
- Cwricwlwm rhyngddisgyblaethol, sy’n dysgu drwy brofiad ar sail heriau, gan gyflwyno dysgu byd go iawn sy’n paratoi graddedigion ar gyfer y byd gwaith a’u dyfodol.
- Cyrsiau dan arweiniad ymchwil ac ymarfer proffesiynol wedi'u cyd-gynhyrchu a'u cyflwyno trwy weithio mewn partneriaeth â myfyrwyr a chyflogwyr.
- Cynnig cyfleoedd dysgu gydol oes hyblyg a datblygu graddedigion sy'n entrepreneuriaid hyderus.

- Cymuned o staff, myfyrwyr a phartneriaid sy'n cael ei gyrru gan werthoedd, ac sy'n gwrando, yn ymgysylltu ac yn grymuso pobl a'r lle i gyflawni ein cenhadaeth ddinesig.
- Darparu arweinyddiaeth system gref i yrru system eco sgiliau'r rhanbarth, gan gefnogi twf a gwella symudedd cymdeithasol.
- Cydweithio a gweithio mewn partneriaethau gweithredol, ar lefel ranbarthol a byd-eang i sicrhau'r effeithiau cadarnhaol mwyaf posibl ar gyfer llesiant cenedlaethau'r presennol a’r dyfodol.
- Yn brifysgol o ddewis i bartneriaid, gan gyd-greu datrysiadau beidddgar sy’n torri tir newydd i gyflawni newid economaidd a chymdeithasol.

- Diwylliant mentrus sy’n cynnwys ymchwil gynhwysol a rhyngddisgyblaethol sy’n meithrin ac yn adeiladu gallu a chynhwysedd staff a myfyrwyr i gyflawni canlyniadau rhagorol.
- Portffolio cynyddol o weithgareddau ymchwil a menter gydweithredol a gyflawnir drwy gynigion ar y cyd, prosiectau ar y cyd a chyd-ddosbarthu allbynnau, gan weithio mewn partneriaeth â diwydiant a’r byd academaidd.
- Rhoi cefnogaeth a phrofiad rhagorol i gymuned gynyddol a chynhwysol o fyfyrwyr ymchwil.
- Sicrhau effaith drwy ymchwil, menter, arloesi a masnacheiddio sy'n trawsnewid diwydiant a chymdeithas.

**Hyrwyddo'r iaith Gymraeg, diwylliant a threftadaeth Cymru a bod hyn yn weithredol drwy ein holl weithgareddau.**

**Seilwaith ystadau a digidol sy'n diwallu anghenion ein myfyrwyr, staff, partneriaid a chymunedau presennol ac yn y dyfodol.**

**Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd ein cyrhaeddiad rhyngwladol a'n partneriaethau er budd Wrecsam, Cymru a'r Byd.**

**Bydd hyn yn gweithredu mewn ffordd gynaliadwy, ac yn sicrhau bod cynaliadwyedd amgylcheddol ac ariannol yn ganolog i'n penderfyniadau a'n gweithredoedd.**